# GWEITHGARWCH RHYNGWLADOL GWEINIDOGION

## Hydref 2025

| YMWELIADAU Â CHYMRU | |
|---|---|
| **15 Hydref** | **Ymweliad â Chymru gan Uchel Gomisiynydd Malta**<br>Ymwelodd yr Uchel Gomisiynydd â Chymru ar gyfer digwyddiadau yn Abertawe a Chaerdydd. Yn ystod yr ymweliad, cyfarfu'r Uchel Gomisiynydd â'r Dirprwy Brif Weinidog i gyflwyno'r Conswl Anrhydeddus newydd ac i drafod y berthynas gynyddol rhwng Malta a Chymru. |
| **23 Hydref** | **Ymweliad â Chymru gan Lywodraeth Oman**<br>Ymwelodd Llysgennad Swltaniaeth Oman a dirprwyaeth o swyddogion y llywodraeth â Chymru i archwilio strategaethau'r DU, gwersi a ddysgwyd, a chyfleoedd posibl ar gyfer cydweithio. Yn ystod eu hymweliad, manteisiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio ar y cyfle i groesawu'r ddirprwyaeth ac i ddangos cyfleoedd yng Nghymru, gan gynnwys bod gennym lywodraeth ar wahân. |
| **YMWELIADAU Â GWLEDYDD ERAILL** | |
| **02 Hydref** | **Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio - Cyfarfodydd yn Llundain**<br>Teithiodd Ysgrifennydd y Cabinet i Lundain ar gyfer cyfarfod gyda Llysgennad yr Emiradau Arabaidd Unedig yn y DU a Llysgennad Qatar. Trafodwyd Uwchgynhadledd Buddsoddi Cymru a chyfleoedd yng Nghymru ar gyfer buddsoddi cyfalaf. Tra roedd yn Llundain manteisiodd Ysgrifennydd y Cabinet ar y cyfle i gwrdd â Llysgennad newydd yr Almaen yn y DU. Trafodwyd cydweithredu economaidd, gan gynnwys Ynni Gwyrdd, a chydweithredu â Baden-Württemberg. |
| **14 Hydref** | **Ymweliad Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio â Brwsel**<br>Teithiodd Ysgrifennydd y Cabinet i Frwsel ar gyfer Uwchgynhadledd Gweinidogion y Gynghrair Technoleg Darfol a Datblygol (DETA) i godi proffil rhyngwladol Cymru ac i fynychu digwyddiadau i hyrwyddo Uwchgynhadledd Buddsoddi Cymru. |